COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANENGAN a gynhaliwyd nos Fercher, Hydref 10fed, 2018 am saith o'r gloch

PRESENNOL

Alun Jones (Cadeirydd), O. Hefin Roberts (Is-gadeirydd), G. Ian Evans, Edward O. Griffith, Wyn Griffiths, John Gwilym Jones, Robert M. Jones, Owi Lloyd-Jones, Dylan Llwyd, Erfyl W. Roberts, William B. Williams, Cynghorwyr Dewi W. Roberts a John B. Hughes (Cyngor Gwynedd – Sylwebwyr)

YMDDIHEURIADAU

Catherine Ll. Morris

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod, yn arbennig Cyng. G. Ian Evans i'w gyfarfod cyntaf fel Cynghorydd Ward Llanengan. Llongyfarchwyd Darren Garrod a'i gyd-yrrwr ar eu llwyddiant diweddar yn ennill eu rali foduro gyntaf.

1. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Nid oedd gan neb fuddiant personol i'w ddatgan.

2. **CADARNHAU COFNODION**

Cynigiwyd ac eiliwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar Fedi 12fed, 2018 yn gywir.

3. **EITEMAU BRYS (Cadeirydd/Clerc) – Er gwybodaeth neu i'r Clerc weithredu. Ni chaniateir penderfyniadau**

Ni dderbyniwyd dim.

4. **CEISIADAU CYNLLUNIO**

Trafodwyd y ceisiadau a ganlyn:

C18/0772/39/LL	Newid defnydd siop (A1) i werthu bwyd poeth i'w fwyta allan (A3) – Hideaway, 4 Stryd Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd ei leoliad (fel yr awgryma'r enw) ac y gallai fod ar agor tan oriau mân y bore er nad oes sôn am hynny yn y cais. Ychwanegwyd nad oes lle bwyta tu allan i'r eiddo ac mae'n fath o fwyd a fwyteir ar ddiwedd noson allan, felly pryderir mai gwneud ar y stryd a thu allan i'r siopau gerllaw a wneid a gallasai hynny amharu ar fwytai cyfagos a chynnydd yn yr ysbwriel. Yn ogystal, buasai arogleuon a sŵn yn amharu ar y trigolion sy'n byw tu ôl i'r adeilad**.
C18/0784/39/LL	Dymchwel cwt glan y môr presennol ac adeiladu un newydd yn ei le – Cwt Glan y Môr 43, Borth Fawr, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd nad yw'r un maint â'r gwreiddiol. Mynegwyd bod gormod o newid i'r cytiau, h.y. ni chadwa'r un cais at y maint gwreiddiol ac yr amrywia'r gwneuthuriad yn hytrach na pharhau'n**

'gytiau pren glan môr cyffredin'. Ychwanegwyd ei bod yn gystadleuaeth, o ddefnyddio'r dywediad Saesneg, "*keeping up with the Joneses*". Hefyd, awgrymwyd y dylid rhoi amod cadwraeth o ryw fath arnynt – a gofynnir am ymateb i hyn.

C18/0865/39/LL **Cais Diwygiedig –** Estyniad ac addasiadau i'r tŷ yn cynnwys codi lefel y to a gosod ffenestr gromen gefn – 4 Cae Du, Aber-soch **– Gwrthwynebir oherwydd gorddatblygiad a dechreuwyd cynsail eisoes i weddill y stad â'r estyniadau a ganiatawyd i rifau 1 a 9. Mynegwyd pryder hefyd, gan mai tai dwy/tair llofft oedd y rhain yn wreiddiol y coda'r estyniadau a'r ychwanegu at nifer y llofftydd eu gwerth i fod ymhellach tu hwnt i drigolion lleol. Hefyd, dim ond un dudalen o ddyluniad presennol a atodir o gymharu â'r 11 o'r rhai bwriadedig i fedru cymharu'n iawn.**

5. **CYFETHOL AELOD I WARD ABER-SOCH**

Derbyniwyd dau enw a phleidleisiwyd yn unfrydol i gyfethol Angharad Correia-Martins.

6. **MATERION YN CODI**

a) **Toiledau Cyhoeddus**

i) Derbyniwyd eglurhad oddi wrth Bethan Hughes, Uwch Swyddog Ymchwil a Dadansoddeg, am y nawdd gan Lywodraeth Cymru. Rhan o'r prosiect yw edrych os oes posibl codi ffi defnyddio toiledau cyhoeddus mewn ffordd fwy digidol.

ii) Ni dderbyniwyd unrhyw ohebiaeth oddi wrth Dîm Gwarchod y Cyhoedd na'r Gwasanaeth Cynllunio parthed toiledau caffi Marchros.

iii) Deallwyd, rhywsut, y clowyd drws toiled canol y merched, ac mae angen clo newydd ar ei gyfer; archebir un yr wythnos hon.

b) **Meddygfa a Fferyllfa Aber-soch**

i) Bwriada Wyn Thomas, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Gofal Cychwynnol, fynychu cyfarfod arbennig **nos Lun, Tachwedd 12fed** am saith o'r gloch – ni ddychwela i'w waith tan ddiwedd y mis.

ii) Derbyniwyd cydnabyddiaeth o'r llythyr a anfonwyd at Fferyllwyr Rowlands ac ymatebir iddo o fewn pymtheng niwrnod. Bwriada Dirprwy Brif Swyddog Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru gysylltu â'r Bwrdd Iechyd i holi am y sefyllfa hefyd.

c) **10. Gohebiaeth: d) Cefnogaeth Gorfforaethol – Hunan*iaith***
Ni ddosbarthwyd y pecynnau o amgylch Aber-soch.

ch) **10. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru: vi) Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref**
Derbyniwyd copi o Adroddiad Terfynol y Panel erbyn hyn ond, ni lwyddwyd ei argraffu oherwydd trafferthion â'r argraffwr.

d) **10. Gohebiaeth: b) Siôn Gwilym – Mapio'ch Cyngor**
Nis argraffwyd y map ond, anfonwyd y ffeil (heb lwybrau cyhoeddus) at y Cynghorwyr sydd â chyfrifiadur – anfonir hwnnw eto.

dd) **14. Gohebiaeth: a) Un Llais Cymru (ULlC) v) Pwyllgor Ardal Arfon/Dwyfor**
Derbyniwyd ymddiheuriad mai camgymeriad oedd anfon copi Saesneg o Adroddiad Adolygiad o'r Sector Cynghorau Cymuned a Thref.

e) **14. Gohebiaeth: b) Geocache Porth Neigwl**
Diolchwyd am yr eglurhad o wrthod y cais am ganiatâd gosod Geocache ym mlwch ffôn Llanengan.

7. **MYNWENT**

a) **Cais am Osod Mainc**
Derbyniwyd gair o ddiolch oddi wrth y teulu a chydnabod y bydd yr arysgrifiad yn ddwyieithog.

8. **CAEAU CHWARAE**

a) **Archeb Archwiliad Blynyddol**
Gosododd G.L. Jones y darnau erbyn hyn, ynghyd â'r rhai a oedd eu hangen ar gyfer yr offer cadw'n heini ond, wrth ddiolch a derbyn y cynnig, ni sylweddolodd y Clerc y codid am wneud hynny...! Gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

b) **Amcanbrisiau Offer – Awgrymiadau'r Is-bwyllgor**
Cynhaliwyd cyfarfod o'r Is-bwyllgor echnos (gweler copi o'r cofnodion) a phenderfynwyd awgrymu'r offer a ganlyn:

	£
ffens newydd ar ochr Lôn Engan, Aber-soch (Ffensio Llŷn)	4515.00
llwybr beicio/cerdded o amgylch Cae Mynytho (Caloo)	18059.94
Nexus (ffrâm ddringo) i Gae Aber-soch (Hags)	12451.58
	£35026.52 + TAW

Derbyniwyd sampl o'r SUDS-bond a ddefnyddir fel wyneb y llwybr. Gofynnir a fyddai modd ychwanegu dau neu dri 'twmpath' yma ac acw ynddo er mwyn amrywio rhywfaint arno. Mae'r llwybr beicio/cerdded yn ateb cais rhieni Ysgol Foel Gron o ran yr unig glwb beicio yn ysgolion Llŷn.

Derbyniwyd gwybodaeth y gellid ymgeisio am nawdd o hyd at £1500.00 o Gronfa Cist Gymunedol Gwynedd.

Penderfynodd y Cyngor llawn dderbyn yr awgrymiadau ac archebir hwy cyn gynted â phosibl.

c) **Paentio'r Offer**
Gorffennwyd paentio'r offer sglefrfyrddio erbyn hyn; ni dderbyniwyd anfoneb am y gwaith.

9. **CYFRIFON**

a) **Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol 2019 – 2020**
Derbyniwyd copi o'r uchod; angen sylwadau erbyn Tachwedd 27ain.

b) **Archwiliad Ariannol – Allanol 2017 – 2018**
Gweler cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd ar Hydref 1af i gadarnhau'r cyfrifon. Ni dderbyniwyd cydnabyddiaeth nac ymateb i'r gŵyn a'r cais am dynnu'r sylw y llenwyd Blwch 4 (Costau Staff) yn anghywir. Ymatebodd yr Archwiliwr Mewnol nad yw'n hollol sicr am y beth y chwilia BDO o ran gwariant Adran 137 – cyfraniadau a rhoddion ydynt yn aml er budd y gymuned.

c) **Wayleave Cyn-westy'r Harbwr, Aber-soch**
Ni dderbyniwyd yr ad-daliad hyd yma.

ch) **Adnewyddu Yswiriant y Cyngor**
£43.97 oedd y tâl ychwanegol am ychwanegu eitemau'r gofrestr asedau ddiwygiedig.

d) **Cyfeirlyfr Charles Arnold Baker**
Derbyniwyd y llyfr a'r anfoneb heddiw – gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod.

dd) **BACSTAL**
Cynigiodd Bacstal ostyngiad o 5% ar gyfrifon a delid trwy ddebyd uniongyrchol – dychwelwyd y bonyn ond, er cwblhau'r cofrestriad ni ddebydwyd yr hyn sy'n ddyledus (£98.75 + TAW) hyd yma.

10. **MATERION CYNLLUNIO**

a) **Materion yn y Gymuned/Ymholiadau Cynllunio/Gorfodaeth**
Ni dderbyniwyd ateb i'r holl ymholiadau a wnaed dros y misoedd diwethaf; ni chafwyd cyfle i gysylltu â'r Adran eto.

b) **Apêl Cais Cynllunio – The View, Bwlchtocyn**
Anfonwyd sylwadau'r Cyngor ar yr uchod eisoes.

c) **Ymgynghoriad Canllawiau Cynllunio Atodol - Llecynnau Agored mewn Datblygiadau Tai Newydd a Thai Marchnad Leol**
Ail gopi o'r canllawiau atodol – angen sylwadau erbyn Tachwedd 22ain.

11. **MATERION PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL**

a) **Y Fach – Cynllun a Chyfyngiadau Parcio**
Ail-lythyrwyd â'r gwrthwynebwr ond, ni chafwyd ymateb. Oherwydd y deil y gwrthwynebiad yn ddilys, bydd rhaid darparu adroddiad i'w gyflwyno i'r Pwyllgor Ardal am benderfyniad os na chaiff ei dynnu'n ôl yn y cyfamser.
Penderfynwyd y dylid cwyno wrth yr Heddlu (Gan Bwyll) a'u holi pam na ddaethant i'r Fach yn ystod yr haf pan oedd y traffig ar ei drymaf a cherddwyr yn croesi'r ffordd wrth fynd a dod i'r traeth, yn hytrach nag ar ddiwedd y tymor gwyliau.

b) **Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Cau'r Ffordd Dosbarth III ger Tŷ Siop, Llangian) (Gwaharddiad Trafnidiaeth Trwodd Dros Dro) 2018**
Copi o'r Rhybuddion Cyhoeddus ar gyfer cau'r uchod rhwng Tŷ Siop ac Ysgubor Ddegwm. Daw i rym ar Dachwedd 5ed a phery am chwe mis ond, disgwylir cwblhau'r gwaith o fewn tua naw niwrnod.

12. **MATERION HAWLIAU TRAMWY**

a) **Torri'r Llwybrau**

Derbyniwyd anfoneb un o'r contractwyr (gweler 15. Cadarnhau Taliadau a Derbyniadau isod). Bydd **rhaid** hysbysebu tendr torri'r llwybrau at y tymor nesaf. Awgrymwyd, gan nad yw Dewi Wyn Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramor, am fynychu cyfarfod o'r Is-bwyllgor Llwybrau, y dylid cynnig mynd i'w weld ym Mhwllheli.

Adroddwyd fod giât fochyn ger Llwyn Impiau wedi torri, a bod llwybr wedi cau ger Wilings – llwybr wedi cau; hysbysir DWO.

13. **GOHEBIAETH**

a) **Un Llais Cymru (ULlC)**

i) ***Ymgynghoriad Heolydd sydd heb eu Mabwysiadu yng Nghymru***
Ymgynghoriad i adolygu'r sefyllfa.

ii) ***Bwletin mis Medi***
Nid oedd dim o bwys i'w argraffu y tro hwn.

iii) ***Ymateb ULlC i Gydgrynhoi Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Dosbarthiadau Defnydd) 1987 a Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995***
Copi o'r uchod er gwybodaeth.

b) **Llywodraeth Cymru**

i) ***Pecyn Cymorth Asedau a Gwasanaethau***
Hysbysiad, er gwybodaeth, fod yr uchod ar gael ar-lein.

c) **Corn Tanrallt**

Derbyniwyd llun a dynnwyd ar Orffennaf 25ain yn dangos y torrwyd un o'r ceblau; fe'i anfonwyd ymlaen at Nimbus Lightning Protection er gwybodaeth a bwriedir ei atgyweirio (£259.00 + TAW) pan brofir (£114.00 + TAW) y system yn y dyfodol agos.

ch) **Menter Môn – Wi-fi Cymunedol Cyhoeddus**

Derbyniwyd gwybodaeth am yr uchod drannoeth cyfarfod mis Medi oddi wrth yr Aelod Lleol - fe'i trafodwyd yng nghyfarfod y Masnachwyr ac roeddynt yn awyddus i geisio amdano ac yn fodlon cyfrannu mil o bunnoedd fel cost gyfatebol. Estynnwyd y dyddiad cau i Fedi 30ain a chyflwynwyd cais brysiog ar ôl ei drafod â'r Cadeirydd. Derbyniwyd gwybodaeth heddiw y dymuna'r swyddog TG gyfarfod i weld ble yn union y gellid gosod y wi-fi - hanner dydd, ddydd Mawrth nesaf (Hydref 16eg).

d) **Cyngor Gwynedd**

i) ***Gwasanaeth Ieuenctid – Gweithiwr Cymorth Ieuenctid Dalgylch Ysgolion Botwnnog a Glan-y-Môr***
E-bost oddi wrth Andrew Owen yn cyflwyno ei hun.

ii) ***Arolwg Cyhoeddus – Pa Wasanaethau sy'n Bwysig i Chi?***
Ymarferiad i roi cyfle i drigolion a sefydliadau'r Sir ddweud eu dweud ar ba wasanaethau cyhoeddus a gynhelir gan y Cyngor sydd bwysicaf iddynt. Mynegwyd, fel â Her Gwynedd, mai trosglwyddo'r baich o doriadau ariannol i'r trigolion yw hyn; dyddiad cau – Tachwedd yr ail.

iii) ***Cysylltwr Cymunedol Tîm Oedolion Llŷn Gofal a Thrwsio Gwynedd a Môn***
E-bost oddi wrth Tesni Roberts yn cyflwyno ei hun.

dd) **Neuadd Mynytho – Holiadur**
Llythyr yn gwahodd ymateb i'r uchod ar gyfer cynlluniau adfywio'r Neuadd.

14. **DYFARNIADAU CYNLLUNIO**

C18/0599/39/LL	Teras to i'r ail lawr **–** 4 Pen-y-Bont, Lôn Pont Morgan, Aber-soch – **Caniatawyd ag amodau**
C18/00605/39/AC	Rhyddhau Amodau 3 (defnyddiau), 5 (cynllun atal llygredd), 7 (sgrin preifatrwydd), 9 (dulliau amgáu) a 10 (datganiad dull adeiladu) ar Ganiatâd C17/1024/39/LL - The Shanty, Pen Bennar, Aber-soch **- Cymysg (A, AC a R) - Gwrthodwyd Amod 3 a Chaniatawyd Amodau 5, 7, 9 a 10 yn ddiamodol**
C18/0613/39/AC	Rhyddhau Amodau 3 (llechi), 4 (gorffeniad allanol) a 5 (tirlunio) ar Ganiatâd Cynllunio C17/1161/39/LL **-** Tir ger Tŷ Adda, Aber-soch - **Caniatawyd yn ddiamodol**
C18/0677/39/LL	Estyniad unllawr **–** Tŷ Newydd, Mynytho – **Caniatawyd ag amodau**
C18/0696/39/LL	Estyniad deulawr ochr – Tŷ Uchaf, Mynytho **– Caniatawyd ag amodau**
C18/0713/39/LL	Estyniad deulawr ochr â ffenestr gromen, estyniad deulawr cefn, estyniad unllawr blaen â balconi uwchben ac addasiadau allanol i ffenestri – Pen-y-Gwaith Cottage, Machros, Bwlchtocyn **– Caniatawyd ag amodau**

15. **CADARNHAU TALIADAU A DERBYNIADAU**

Taliadau
Cadarnhawyd talu cyflog mis Hydref (Rh/S 002172) y Clerc, ynghyd â'r taliadau a ganlyn:

a) Rob Singleton Garden Services – £6480.00 (Rh/S 002169 – Torri Llwybrau)
b) G.L. Jones Playgrounds Ltd. – £1216.80 (Rh/S 0020170 – Darnau Offer y Caeau Chwarae)
c) Delwedd Ltd. – £431.28 (Rh/S 002171 – Cynnal Gwefan y Cyngor)
ch) Casglwr Trethi – £19.73 (Rh/S 002173 – Talu Wrth Ennill)
d) LexisNexis – £110.99 (Rh/S 002174 – Llyfr *Local Council Administration*)
dd) E-on – £21.22 (D/U – Trydan y Toiledau)
e) J.A. Pozzi – £660.00 (Rh/S 002175 – Torri Llwybrau)
f) Clerc – £81.30 (Rh/S 002176 – Costau Teithio a Pharcio Cynhadledd SLCC ac Allweddi Ychwanegol i'r Toiledau)

Derbyniadau
a) Toiledau – £51.15 (Tâl Mynediad – £29.20, £15.00, £6.95)

16. **DYDDIAD AC AMSER Y CYFARFOD NESAF**

Nos Fercher, Tachwedd 14eg, 2018 am saith o'r gloch